Cwmni'n Byw'n Iach.cyf

# Polisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion-

# *Crynodeb o Brif Bolisi Byw'n Iach ar gyfer Cwsmeriaid, Ymwelwyr a Phartneriaid

*Adolygwyd Hydref 2021*

## 1. Cyffredinol

Mae Cwmni Byw'n Iach yn cydnabod bod ganddo cyfrifoldeb i sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau cadarn yn eu lle er mwyn sicrhau bod plant a phobl agored i niwed yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth.

Rydym o'r farn bod gan pob plentyn ac oedolyn yr hawl i fod yn ddiogel rhag niwed. Mae'r Cwmni'n cydnabod ei rôl a'i gyfrifoldebau i roi arweiniad pendant i gyfarwyddwyr, staff, gwirfoddolwyr a darparwyr gwasanaeth o fewn ein eiddo, a'r rhai rydym yn eu gwasanaethu yn y maes allweddol hwn.

Mae "diogelu" yn fusnes i bawb o fewn y Cwmni a'n safleoedd. Mae gan **bawb** gyfrifoldeb i ddiogelu lles plant, pobl ifanc ac oedolion, gwaeth beth yw rôl yr unigolyn.

Dylid pwysleisio bod "diogelu" yn gysyniad ehangach nag amddiffyn plant ac oedolion, ac a wnelo â hyrwyddo:

- iechyd corfforol, emosiynol a meddwl;
- amddiffyn rhag niwed ac esgeulustod;
- addysg, hyfforddiant a hamdden;
- eu cyfraniad i gymdeithas;
- lles cymdeithasol ac economaidd

Rydym o'r farn fel Cwmni ei bod bob amser yn annerbyniol i blentyn neu oedolyn gael ei gam-drin neu gael niwed o unrhyw fath. Adlewyrchir hyn yn yr egwyddorion isod sy'n sail i'r Polisi a Chanllawiau;

- Mae gan bob plentyn ac oedolyn (waeth beth fo'u cefndir, diwylliant, oed, anabledd, rhyw, tarddiad hiliol, cred grefyddol) yr hawl i gymryd rhan mewn gweithgareddau ddiogel heb unrhyw drais, ofn, camdriniaeth, ecsploetiaeth, bwlio a gwahaniaethau;

- Mae gan bob plentyn ac oedolyn yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag niwed, cam-fanteisio, a chamdriniaeth;

- Byddwn fel Cwmni'n rhoi lles plant ac oedolion yn ganolog i'n polisïau a'n gweithdrefnau;

- Byddwn fel Cwmni'n parchu hawliau, dymuniadau, teimladau a phreifatrwydd plant ac oedolion trwy wrando arnynt a lleihau i'r eithaf unrhyw risgiau a allai effeithio arnynt;

- bod trefniadau cyfathrebu clir a hwylus yn eu lle ar draws y sefydliad, gan gynnwys gwybodaeth am y swyddogion allweddol yn y cwmni sydd â chyfrifoldeb am faterion diogelu plant ac oedolion;

- bod cydymffurfiaeth rhwng y gweithdrefnau a'r rhai sy'n weithredol ar lefel Cymru gyfan, a phrotocolau cysylltiedig ar gyfer diogelu plant ac oedolion;

- bod cyfarwyddwyr, staff a gwirfoddolwyr yn derbyn gwybodaeth a hyfforddiant ynglŷn â'r canllawiau, a bod hyn yn drefniant parhaol a chyson o fewn y sefydliad.

## 2. Rheolwyr Dynodedig Diogelu

Mae'r Cwmni wedi enwebu "Rheolwr Dynodedig" ar gyfer ymwneud gyda materion diogelu plant ac oedolion.

**Alun Jones** (Rheolwr Partneriaethau)
AlunJones2@bywniach.cymru
07795012706

### 3. Y Drefn i Gyfeirio Pryder:

Dylai unrhyw aelod o'r cyhoedd sydd â phryder ynglŷn a diogelwch plentyn neu oedolyn gysylltu yn syth gyda'r gwasanaethau perthnasol isod:

- *Tîm Dyletswydd Gwasanaeth* ***<u>Plant</u>*** *Cyngor Gwynedd*
  Neu'r
- *Tîm Cynghori ac Asesu Gwasanaeth* ***<u>Oedolion</u>*** *Cyngor Gwynedd.*
  *Neu'r*
- *Tîm* ***<u>Tu Allan i Oriau'r</u>*** *Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd*

(Ar gyfer unrhyw bryder ynghylch diogelwch plentyn neu oedolyn y tu allan i oriau swyddfa arferol, ar ôl 5.00 y.p. Llun i Gwener ac ar benwythnosau a gwyliau banc)

☎ ***01766 772577***

Rhaid cysylltu gyda'r Heddlu ar unwaith os yw'r plentyn neu'r oedolyn mewn perygl uniongyrchol.

### 4. Gwybodaeth Pellach

Mae'r Polisi llawn yn cynnwys gwybodaeth manwl i staff, rheolwyr a chyfarwyddwyr y cwmni o ran eu cyfrifoldebau penodol, hyfforddiant, trefniadau DBS a trefn monitro'r polisi . Mae copi o'r Polisi llawn ar gael trwy gyflwyno cais i'r Rheolwr Dynodedig (manylion cyswllt uchod).